# Astudiaeth Achos

## Stryd Ysgol

Ysgol Bryn Collen

Llangollen, Sir Ddinbych

Ysgol Gynradd



Ffigur 1: Cylchfan y tu allan i'r ysgol ar gau i draffig nad yw'n hanfodol yn ystod cyfnod Stryd Ysgol. ©Sustrans

## Cefndir

Ysgol gynradd wledig yn ne Sir Ddinbych yw Ysgol Bryn Collen, sy'n rhannu ei safle gydag ysgol gynradd arall. Mae'r patrwm ffyrdd cyfagos, a gynlluniwyd ar gyfer un ysgol gyda llai o ddisgyblion, yn arwain at dagfeydd yn ystod oriau brig yr ysgol. Mae'n anodd gweld disgyblion a rhieni rhwng y ceir, a bydd ceir yn parcio ar linellau melyn dwbl ac mewn mannau i yrwyr anabl a thacsis, sy'n gwneud pethau'n waeth. Er gwaetha'r heriau hyn, mae cymuned yr ysgol yn frwd o blaid teithio llesol.

## Elfennau allweddol

Yn 2023, blaenoriaethodd Cyngor Sir Ddinbych yr ysgol ar gyfer cais i'r Gronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i wella diogelwch i'r disgyblion trwy dreialu Stryd Ysgol, sef cyfnod o gau'r ffordd i draffig ar amseroedd brig bob dydd. Gan fod rhaid i ysgol gael cynllun teithio llesol er mwyn sicrhau cyllid Llwybrau Diogel, bu swyddogion Cynllunio Teithio Llesol yn cydweithio'n agos gyda'r pennaeth i greu'r cynllun, gan sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer y cais.

## Canlyniadau

Bu'r cynllun teithio llesol yn hwb i'r cais i'r Gronfa, a chafwyd cyllid i dreialu Stryd Ysgol. Cynhaliwyd y treial cyntaf ym mis Hydref 2023, ac eto wedyn yng Ngorffennaf 2024.

Yn y treial cafodd yr ardal ei thrawsnewid yn barth di-draffig diogel, gan ganiatáu i'r ysgol godi ymwybyddiaeth bellach dros deithio llesol, e.e. trwy weithgareddau hwyliog ar y diwrnod fel sesiynau "addurno eich beic" a beic gwneud 'smwddis'.

Cafodd y treialon gefnogaeth gref gan y gymuned, sydd bellach yn pwyso dros gau strydoedd o gwmpas yr ysgol yn barhaol (ac eithrio i drigolion) yn ystod amseroedd codi a gollwng plant.

Er gwaethaf pryderon cychwynnol am broblemau parcio, yn ôl yr arolygon mae'r rhan fwyaf o rieni a thrigolion wedi ymateb yn gadarnhaol i'r treial.

Felly, mae Cyngor Sir Ddinbych wrthi'n archwilio dichonoldeb gosod camerâu adnabod rhifau ceir, fydd yn help i orfodi'r cau ac yn annog ymrwymiad cymunedol hirdymor.

## Dyfyniadau

**"Mae'n fy ngwneud i mor hapus."**

- Pennaeth Ysgol Bryn Collen

**"Mae hyn yn wych, does dim rhaid i mi boeni am draffig gyda fy mhram."**

- Un o rieni Ysgol Bryn Collen

**"Mae'n hyfryd, rydyn ni'n rhydd i grwydro."**

- Un o rieni Ysgol Bryn Collen




Ffigurau 2, 3 a 4: Digwyddiad 'Addurno eich beic' i ddathlu'r Stryd Ysgol. ©Sustrans

YMUNWCH Â'R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government